**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 406

## Cynllun Fordd Ymuno Traffordd yr M4 (Cyffordd 44, Lô n-Las) 2003

**1.** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei awdurdodi i ddarparu ar hyd y llwybr a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ffordd arbennig ar gyfer defnydd traffig Dosbarth 1 ac 11 a nodir yn Atodlen 4 i Ddeddf Priffyrdd 1980.

**2.** Mae llinell ganol y ffordd arbennig hon wedi ei dynodi â llinell drwchus ddu dangosir fel "A" ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darn o'r ffordd arbennig a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras dangosir fel "B" ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd a chaiff ei dosbarthu fel ffordd Ddi-ddosbarth o'r dyddiad y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn hysybysu Dinas a Sir Abertawe fod y ffordd arbennig newydd ar agor i draffig trwodd.

**4.** Yn y Cynllun hwn:—

(1) Mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr "y draffordd" ("*motorway*") yw traffordd Llundain-De Cymru (M4);

(ii) ystyr "y ffordd arbennig" ("*the special road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

(iii) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA16/1 NAFW 1 a elwir Cynllun Ffordd Ymuno Traffordd yr M4 (Cyffordd 44, Lôn-Las) 2003, ac sydd wedi ei lofnodi ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd ac wedi'i adneuo drwy awdurdod Storfa ac Adferiad Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (RSRU) Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

**5.** Daw'r Cynllun hwn i rym ar 28 Mawrth 2003 a'i enw yw Cynllun Ffordd Ymuno Traffordd yr M4 (Cyffordd 44, Lôn-Las) 2003.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd

*R. K. Cone*
Pennaeth yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith ffyrdd y Gyfarwddiaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru
26 Chwefror 2003